

Cynhaliwyd cyfarfod safle o Gyngor Cymuned Talylychau ar y Cae Cymunedol nos Fawrth 7 Medi, 2021 am 7 p.m. Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Marged Bowen (Cadeirydd), Janine Roberts, John Williams, a'r Clerc Jane Morgan. Ymddiheuriadau: Rhys Williams a Steve Haines. Codwyd materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talylychau nos Fawrth 7 Medi 2021 am 7.30 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Marged Bowen (Cadeirydd), Janine Roberts, Pauline George, John Williams, Eifion Roberts, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a'r Clerc Jane Morgan. Ymddiheuriadau: Steve Haines, Rhys Williams. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Donovan Kerr yn bresennol tan 7.45 p.m.

Datganiad o Fuddiant. John Williams. Eitem 8 Cynllunio.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 6 Gorffennaf, 2021 yn gywir. Materion sy'n codi.

Yr Hen Onnen. Anfonwyd lluniau o'r Onnen yn ei dail llawn (Awst) at y Swyddog Coedyddiaeth, Stephen Edwards. Cafwyd ymateb yn rhoi gwybod ei fod wedi edrych ar y goeden y mis diwethaf a'i bod mewn iechyd da.

Diffibrilwyr. Gan na wnaed unrhyw gyswllt â Cariad a hefyd ni lwyddwyd i gysylltu â'r GIG, cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â Chyngor Cymuned Manordeilo a Salem i weld a oedd gan y Cyngor hwnnw unrhyw gysylltiadau a pha waith cynnal a chadw ac archwilio oedd yn cael ei wneud ar ei ddiffibrilwyr.

Ethol Is-gadeirydd. Gan nad oedd Steve Haines yn bresennol cytunwyd i adael hyn tan y cyfarfod nesaf. Penodi llofnodwyr ychwanegol ar gyfer y cyfrifon. Wrth wirio'r mandad canfuwyd bod Pauline George eisoes yn llofnodwr. Cytunodd Rhys Williams y gellid ychwanegu ei enw.

Goleuadau Cyflymder sy'n Fflachio ar bob pen i'r pentref a llinellau melyn dwbl y tu allan i Dyffryn Ig. Cafwyd ymateb yn rhoi gwybod y gofynnwyd i ddim ymchwilio i hyn ac ymateb yn uniongyrchol i'r Cyngor.

Perchnogaeth o Fynwent Eglwys y Plwyf. Yn dilyn ymholiadau ag "Un Llais Cymru", cafwyd ateb fel a ganlyn:

Mae angen darganfod pwy sy'n berchen ar y fynwent. Yna bydd angen ffurfioli'r berchnogaeth trwy Gyfreithiwr. Mae gan y Cyngor bŵer cyfreithiol i gyfrannu at gynnal a chadw mynwent fel: a. 'Deddf Mannau Agored 1906.' b. 'Deddf Llywodraeth Leol 1972'. Rhaid i'r Cyngor hefyd fod yn ofalus bod unrhyw gyfraniad a wneir yn ariannol yn mynd tuag at y fynwent yn unig (ac nid i'r Eglwys yn benodol), ei gyngor yw ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw Gyngor gefnogi unrhyw Eglwys/Gapel trwy rodd ariannol uniongyrchol.

Clerc y Fynwent. Yn ôl Un Llais Cymru nid oedd angen cyfreithiol i hysbysebu rôl rheoli y fynwent yn gyhoeddus, ond y byddai'n arfer da i hysbysebu'r rôl ar y wefan ar gyfer pobl leol. Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn llunio Hysbysiad ynghylch Swydd Wag a'i anfon ymlaen at bob Cynghorydd i edrych drosto cyn ei roi ar y Wefan ac yn y ddau Hysbysfwrdd. Fel y cytunwyd, dylid talu £20.00 am bob angladd.

Toiledau Cyhoeddus. Rhaid i'r Cyngor fod yn ofalus bod unrhyw gyfraniad a wneir yn ariannol yn mynd tuag at y toiledau yn unig ac nid i'r Eglwys yn benodol.

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Aeth Jane Morgan (Clerc) i'r sesiwn ar 21.07.2021 am 2 p.m. Cafwyd llythyr yn amgáu "Copi o'r cyflwyniad hyfforddi dwyieithog. Copi o'r nodyn ar achosion cod ymddygiad diweddar. Holiadur adborth."

Y cyfriflenni banc diweddaraf a cheisiadau am dâl. Balans y cyfrif ar 22.07.2021 oedd £6,273.85. Balans y cyfrif ar 27.08.2021 oedd £8,925.55. Roedd hyn yn cynnwys praesept o £3,333.33 a dalwyd i mewn ar 27/08/2021.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc – £177.43; CThEM £44.20; M & J Maintenance £600.00 torri'r borfa ym mis Awst yn Eglwys Sant Mihangel. P. Knott £ 80.00 Parth lletya ar gyfer talylychau/talley.org.uk. Lewis Fencing £432.00. Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd £160.63.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Cafodd llythyr gan y Parchedig Tim Nelson ar ran Talley4Refugees ei ddarllen yn uchel a'i drafod.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Neuadd Eglwys Talylychau ar 22 Medi, am 7 p.m. hefyd bydd yna ddigwyddiad codi arian ar 2 Hydref.

Hysbysiad ynghylch Swydd Wag yn Swyddfa'r Cynghorydd Cymunedol dyddiedig 6 Medi, 2021 a gafwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin wedi'i roi ar y Wefan ac yn y ddau Hysbysfwrdd.

Cafwyd Apêl Haf 2021 gan Y Lloffwr.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – y ffurflen flynyddol wedi'i llenwi.

Roedd y cylchgrawn *Clerks & Councils Direct* wedi dod i law.

Trafodwyd a chytunwyd ar y canlynol a anfonwyd at bob Cynghorydd trwy neges e-bost. Y Rheolau Sefydlog, y Rheoliadau Ariannol, yr Asesiad Risg, y Cod Ymddygiad.

Cynllunio.

Cais PL/02531 – Adeiladu uned amaethyddol benagored i amgáu'r iard bresennol ac i leihau'r swm cyffredinol o ddŵr budr a gynhyrchir, ac i fodloni Rheoliadau SSAFO – Glan yr Afon Ddu Ganol, Cwmdu. Dim gwrthwynebiadau.

Cais PL/02532 – Adeiladu uned amaethyddol benagored i amgáu ardaloedd yr iard bresennol i leihau'r swm cyffredinol o ddŵr budr a gynhyrchir ac i fodloni Rheoliadau SSAFO – Glan yr Afon Ddu Ganol, Cwmdu. Dim gwrthwynebiadau.

Cais PL/02504 – Adfer ffermdy a ddifrodwyd gan dân a newid defnydd beudy cysylltiedig yn llety ategol i'r teulu – Gelli Cefn Y Rhos, Talylychau. Dim gwrthwynebiadau.

Datganodd John Williams fuddiant, a gadawodd yr ystafell.

Cais PL/02495 – Newid defnydd ysgubor yn annedd preswyl – Lan House, Talylychau. Dim gwrthwynebiadau.

Ailymunodd John Williams â'r cyfarfod.

Unrhyw fater arall a dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben tua 8.45 p.m. Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn yr Ysgol nos Fawrth 5 Hydref, 2021 am 7.30 p.m.